# Y Pwyllgor Plant a Phobl Ifanc

## Cofnodion CYP(3)-06-10

**Dyddiad: 27 Ebrill 2010**
**Amser: 9.20 – 11.16**
**Lleoliad: Ystafell Bwyllgora 2, y Senedd**

### Aelodau'r Cynulliad yn bresennol

Helen Mary Jones (Cadeirydd), Llanelli
Val Lloyd, Dwyrain Abertawe
Sandy Mewies, Delyn
Joyce Watson, Canolbarth a Gorllewin Cymru

### Gwasanaeth y Pwyllgorau

Abigail Phillips, Clerc
Sarah Bartlett, Dirprwy Glerc
Sian Thomas, Gwasanaeth Ymchwil yr Aelodau
Helen Roberts, Cynghorydd Cyfreithiol

### Eraill yn bresennol

Keith Towler, Comisiynydd Plant Cymru
Jane Williams, Darlithydd,Ysgol y Gyfraith, Prifysgol Abertawe
Dr Samantha Clutton, Uwch-swyddog Ymchwil a Pholisi, Barnardos Cymru
Trudy Aspinwall, Swyddog Polisi Hawliau Plant, Achub y Plant Cymru
Catriona Williams, Prif Swyddog Gweithredol, Plant yng Nghymru
Lynne Hill, Cyfarwyddwr Polisi, Plant yng Nghymru
Sean O'Neill, Cyfarwyddwr Polisi, Plant yng Nghymru

### 1. Cyflwyniadau, ymddiheuriadau a dirprwyon

1.1 Croesawodd y Cadeirydd aelodau'r Pwyllgor a'r cyhoedd i'r cyfarfod.

1.2 Cafwyd ymddiheuriadau gan Eleanor Burnham ac Angela Burns. Nid oedd unrhyw ddirprwyon. Nododd y Cadeirydd fod angen i Sandy Mewies adael y cyfarfod am 30 munud ac y byddai Val Lloyd yn dirprwyo yn ystod y cyfnod hwnnw.

1.3 Nid oedd unrhyw ddatganiadau o fuddiant.

### 2. Y Mesur Arfaethedig ynghylch Hawliau Plant a Phobl Ifanc (Cymru) – casglu tystiolaeth

**Comisiynydd Plant Cymru**

2.1 Ymatebodd y Comisiynydd i gwestiynau gan yr Aelodau.

2.2 Diolchodd y Cadeirydd i'r Comisiynydd am ddod i'r cyfarfod ac am gyflwyno tystiolaeth ysgrifenedig o flaen llaw.

**Grwp Monitro Cyrff Anllywodraethol Cymru ar gyfer Confensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn**

2.3 Ymatebodd y tystion i gwestiynau gan yr Aelodau

**Cam i'w gymryd**

Cytunodd Jane Williams i roi copi o'r ddogfen sy'n dwyn y teitl

The Justiciability of Resource Allocation' gan Jeff A. King, Modern

Law Review, cyfrol 70, Rhif 2, tud 197-224, Mawrth 2007.

2.4 Diolchodd y Cadeirydd i'r tystion am ddod i'r cyfarfod ac am gyflwyno tystiolaeth ysgrifenedig o flaen llaw.

2.5 Cytunodd y Cadeirydd i ysgrifennu at y Gweinidog dros Blant, Addysg a Dysgu Gydol Oes, yn nodi sylwadau'r Pwyllgor ar y Mesur arfaethedig.

### 3: Ymchwiliad i fannau diogel i chwarae a chymdeithasu – casglu tystiolaeth

**Plant yng Nghymru**

3.1 Ymatebodd y tystion i gwestiynau gan yr Aelodau.

**Cam i'w gymryd**

Cytunodd Plant yng Nghymru i ddarparu tystiolaeth i'r Pwyllgor ynghylch yr anawsterau o ran cael mynediad i gyfleoedd chwarae a phobl yn gorfod teithio cryn bellter i gyrraedd cyfleusterau chwarae.

3.2 Diolchodd y Cadeirydd i'r tystion am ddod i'r cyfarfod ac am gyflwyno tystiolaeth ysgrifenedig o flaen llaw.

## 4: Ymchwiliad i'r trefniadau ar gyfer rhoi plant mewn gofal - cytuno ar yr adroddiad drafft

4.1 Penderfynodd y Pwyllgor gynnal gweddill y cyfarfod mewn sesiwn breifat o dan Reol Sefydlog 10.37(vi).

4.2 Cytunodd y Pwyllgor ar yr adroddiad drafft.

Cytunodd y Pwyllgor ar gofnodion y ddau gyfarfod blaenorol a nodwyd y papurau.

Atgoffodd y Cadeirydd yr Aelodau y bydd y cyfarfod nesaf yn cael ei gynnal ar 11 Fai.

Gwasanaeth y Pwyllgorau, Ebrill 2010